**Y Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau**

**EIN(2) 03-07(p.3)**

**Dyddiad**: 8 Mawrth 2007
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd, Bae Caerdydd
**Teitl**: Papur Briffio i Gydbwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad a MARh - Papur Gwyrdd yr UE; "Towards a Future Maritime Policy for the Union: A European Vision for the Oceans and Seas"

## Teitl a diben y papur

- I ystyried yr ymgynghoriad ar Strategaeth Forol yr UE o'r enw "Towards a future Maritime Policy of the Union: A European vision for the oceans and seas". Cyfeirir at yr ymgynghoriad fel y "Papur Gwyrdd".

## Y Strategaeth Forol / Papur Gwyrdd

- Mabwysiadodd a chyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd Bapur Gwyrdd ar Bolisi Morol i'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer y Dyfodol ar 7 Mehefin 2006. Ategir y Papur Gwyrdd gan sawl dogfen gefndirol y gellir eu gweld yn: http://ec.europa.eu./maritimeaffairs

- Nod y Papur Gwyrdd yw:
  - Dechrau trafodaeth ar Bolisi Morol posibl i'r UE ar gyfer y dyfodol
  - Ychwanegu at bolisïau presennol ac ehangu arnynt
  - Annog ffordd o feddwl integredig a llunio polisïau cydgysylltiedig ymhob maes o'r sector morol.
  - Ymgorffori nifer o sectorau gwahanol sy'n rhan o'r gwaith o reoli adnoddau morol.
  - Cynnwys popeth o dwristiaeth, llongau, datblygu porthladdoedd, trafnidiaeth, ansawdd bywyd, llywodraethu'r moroedd, treftadaeth forol a phryderon amgylcheddol
  - Gosod egwyddorion datblygu cynaliadwy drwyddi draw.
  - Taro cydbwysedd rhwng dimensiynau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol datblygu cynaliadwy.

- Mae'r Papur Gwyrdd yn cynnwys 56 o gwestiynau sy'n seiliedig ar 5 prif thema:
  - Economi Morol Ffyniannus - Yn cynnwys moroedd glân a bioamrywiol, swyddi ac amodau gweithio morol, ac amgylchedd rheoliadol ffafriol.
  - Bywyd mewn Ardaloedd Arfordirol - Datblygu twristiaeth arfordirol, addasu i beryglon arfordirol, rheoli rhyngwyneb y tir/môr.
  - Offer i reoli'r berthynas â'r môr - Cynllunio gofodol, casglu data cywir yn effeithiol a rhannu'r data o fewn y sector morol, cymorth ariannol i weithgareddau Morol.

- Llywodraethu'r Moroedd - Cyflawni llywodraeth gydgysylltiedig, gwrando ar randdeiliaid, ymagwedd holistig ar lefel UE, gweithgareddau alltraeth Llywodraethau, rôl yr UE mewn cyd-destun byd-eang.
- Treftadaeth Forol - Meithrin ein hanes morol a'i ddatblygu fel adnodd, gan gynyddu dealltwriaeth ac addysg.

**Y broses ymgynghori**

- Cynhelir ymgynghoriad y Papur Gwyrdd o 7fed Mehefin i 7fed Gorffennaf 2007

- Mae'r Comisiwn wedi cynnal sawl cyflwyniad i randdeiliaid yn y DU, gan godi ymwybyddiaeth pobl o'r ymgynghoriad ac ennill cefnogaeth i'w egwyddorion. Nid yw'r cyflwyniadau hyn wedi eu trefnu gan y Comisiwn, ond ar gais rhanddeiliaid.

- Gwnaed cyflwyniadau ym Mhartneriaeth Arfordir a Môr Cymru (PAMC), Fforwm Gweledigaeth Forol Llundain a Senedd yr Alban ymysg llefydd eraill.

- Bydd y Comisiwn yn adrodd yn ôl ar ymatebion yr ymgynghoriad erbyn diwedd 2007. Dibynna'r camau nesaf ar ganlyniad yr ymgynghoriad.

**Cyfranogiad Cymru a'r DU**

- Oherwydd ei oblygiadau economaidd a'i oblygiadau i longau, yr Adran Drafnidiaeth sy'n arwain ar y Papur Gwyrdd yn y DU. Ymdrinnir â materion amgylcheddol dan y Strategaeth Thematig Forol.

- Mae swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhan o'r cyfarfodydd rhyngadrannol ar y Papur Gwyrdd a'r Strategaeth Thematig Forol, ynghyd ag Adrannau eraill o'r Llywodraeth a'r Gweinyddiaethau Datganoledig.

- Cyhoeddodd yr Adran Drafnidiaeth ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd ar 12 Rhagfyr 2006. Mae'n crynhoi cwestiynau'r Papur Gwyrdd. Daw ymgynghoriad yr Adran Drafnidiaeth i ben ar 28ain Chwefror 2006. Gellir gweld yr ymgynghoriad yn: http://www.dft.gov.uk/consultations/open/eumaritimegreenpaper

- Bydd yr Adran Drafnidiaeth yn defnyddio'r ymatebion i gynnig ymateb y DU i'r Comisiwn.

- Cynhaliodd PAMC gyflwyniad ar y Strategaeth Forol yn eu cyfarfod ym mis Hydref 2006. Fe'i cyflwynwyd gan swyddogion yr UE. Ceir copi o'r cyflwyniad yn Atodiad 1.

- Mae PAMC yn bwriadu anfon ymateb ar y cyd i'r Papur Gwyrdd.  Gall aelodau'r Bartneriaeth hefyd ymateb yn unigol.

**Y Strategaeth Thematig Forol / Cynnig am Gyfarwyddeb strategaeth forol**

- Y Strategaeth Thematig Forol yw hanfod amgylcheddol y Strategaeth Forol

- Trafododd Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad y Strategaeth Thematig ar 1af Chwefror 2006. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad y byddai'n cefnogi'r broses o weithredu'r strategaeth yn yr UE.

- Defnyddiwyd yr egwyddorion amgylcheddol a amlinellwyd yn y Strategaeth Thematig i ddatblygu'r Papur Gwyrdd. Bydd unrhyw Strategaeth Forol yn y dyfodol yn cwmpasu'r arfer da a amlinellwyd gan y Strategaeth Thematig.

# <u>Cwestiynau o Fewn Papur Gwyrdd Strategaeth Forol yr UE</u>

### 1. Cyflwyniad

A ddylai'r UE gael polisi morol integredig?
Sut y gall yr UE ychwanegu gwerth at y llu o fentrau cenedlaethol, lleol a phreifat sy'n yn bodoli'n barod yn y maes morol?

### 2. Cadw Arweinyddiaeth Ewrop ym maes Datblygu Morol Cynaliadwy

### 2.1 Diwydiant Morol Cystadleuol

Sut y gall sectorau morol Ewropeaidd barhau'n gystadleuol, gan gynnwys ystyried anghenion penodol busnesau bach a chanolig eu maint?
Pa fecanweithiau a ddylai fod ar waith i sicrhau bod datblygiadau morol newydd yn gynaliadwy?

### 2.2 Pwysigrwydd yr Amgylchedd Morol o ran Defnyddio ein Hadnoddau Morol mewn Ffordd Cynaliadwy

Sut y gall polisi morol gyfrannu at gynnal adnoddau ac amgylchedd y môr?
Sut y gall polisi morol gyfrannu at nodau'r Strategaeth Thematig Forol?
Beth yw'r ffordd orau o ddefnyddio asesiadau risg i ychwanegu at ddiogelwch ar y môr?

### 2.3 Defnyddio'r Wybodaeth a'r Dechnoleg Ddiweddaraf

Sut y gall Strategaeth Ymchwil Ewropeaidd yn Ymwneud â'r Môr gael ei datblygu i ychwanegu at ein gwybodaeth a hyrwyddo technolegau newydd?
A ddylid datblygu Rhwydwaith Ymchwil Morol Ewropeaidd?
Pa fecanweithiau sydd orau i droi gwybodaeth yn incwm a swyddi?
Ym mha ffyrdd y dylid cynnwys rhanddeiliaid?

### 2.4 Arloesi o dan Amgylchiadau Newidiol

Pa gamau pellach y dylai'r UE eu cymryd i liniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd yn yr amgylchedd morol?
Sut y gellir hyrwyddo a gweithredu technolegau ynni adnewyddadwy alltraeth arloesol?
Sut y gellir cyflawni gwelliannau mewn effeithlonrwydd ynni ac arallgyfeirio tanwydd ym maes llongau?
Beth sydd ei angen i wireddu llawn botensial buddiannau biotechnoleg glas?

### 2.5 Datblygu Sgiliau Morol Ewrop ac Ehangu Cyflogaeth Forol Gynaliadwy

Sut y gellir gwrthdroi'r gostyngiad yn nifer yr Ewropeaid sy'n mynd i mewn i swyddi morol penodol a sicrhau diogelwch ac atyniad swyddi?
Sut y gellir cyfuno amodau gwaith, cyflogau a diogelwch gwell â gallu'r sector i gystadlu?
Sut y gellir sicrhau ansawdd addysg, hyfforddi ac ardystio?

### 2.6 Clystyru

Pa rôl y gall clystyrau morol eu chwarae o ran cynyddu gallu cystadleuol, yn enwedig i fusnesau bach a chanolig eu maint, gwella atyniad swyddi morol, a hyrwyddo ymdeimlad o hunaniaeth forol?
Sut y gall yr UE hyrwyddo synergedd rhwng sectorau rhyng-gysylltiedig?

**Y Fframwaith Rheoliadol**

Sut y gellid gwella'r fframwaith rheoliadol i'r economi forol er mwyn osgoi effeithiau anfwriadol a gwrthgyferbyniol ar nodau morol?
Pa eithriadau o'r sector forol mewn perthynas â rhai o ddeddfwriaethau cymdeithasol yr UE y gellid eu cyfiawnhau o hyd?
A ddylid annog offerynnau cyfreithiol penodol pellach ar amodau cyflogaeth yn y sector morol?
Sut y gellir symleiddio rheoliadau diogelwch yr UE a chadw safonau diogelwch uchel?
I ba raddau y gall cymhellion economaidd, hunan-reoleiddio a chyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol gyd-fynd â rheoleiddio llywodraethol?
Pa gamau gweithredu pellach sydd eu hangen gan yr UE i ymdrin â diffygion baneri ac i ddarparu cymhellion i gofrestru dan faneri Ewropeaidd?
A ddylai cofrestr UE ddewisol fod ar gael? Pa amodau a chymhellion y gellid eu hystyried ar gyfer cofrestr o'r fath?
Sut y dylid datblygu'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin ymhellach i gyflawni ei nod o bysgodfeydd cynaliadwy?

## 3. Gwella Ansawdd Bywyd i'r Eithaf mewn Ardaloedd Arfordirol

### 3.1 Atyniad Cynyddol Ardaloedd Arfordirol fel Lle i Fyw a Gweithio

Sut y gellir cynnal ansawdd bywyd yn ardaloedd arfordirol Ewrop, gan ddal i ddatblygu incwm a swyddi cynaliadwy?
Pa ddata sydd ei angen er mwyn cynllunio mewn ardaloedd arfordirol?

### 3.2 Addasu i Risgiau Arfordirol

Beth sydd yn rhaid ei wneud i leihau natur ddiamddiffyn ardaloedd arfordirol i'r risg o lifogydd ac erydu?
Pa gydweithio pellach sydd ei angen yn yr UE i ymateb yn ddigonol i drychinebau naturiol?
Sut y gellir gwarchod ein glannau a'n dyfroedd arfordirol yn well i atal bygythiadau dynol?

### 3.3 Datblygu Twristiaeth Arfordirol

Sut y gellir cefnogi arloesi mewn gwasanaethau a chynnyrch sy'n gysylltiedig â thwristiaeth arfordirol yn effeithiol?
Pa fesurau penodol yn hyrwyddo ymdrechion i ddatblygu twristiaeth gynaliadwy mewn ardaloedd arfordirol ac ynysoedd y dylid eu cymryd ar lefel yr UE?

### 3.4 Rheoli Rhyngwyneb y Tir/Môr

Sut y gellir gweithredu Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol yn llwyddiannus?
Sut y gall yr UE sicrhau parhad datblygiad cynaliadwy porthladdoedd yn y ffordd fwyaf effeithiol?
Pa rôl y gall canolfannau rhagoriaeth forol rhanbarthol ei chwarae?

## 4. Darparu'r Offer i Reoli Ein Perthynas Â'r Môr

### 4.1 Data a fydd o fudd i Weithgareddau Lluosog

Ar hyd ba linellau y dylid datblygu Atlas Ewropeaidd o'r Moroedd?

Sut y gellir sefydlu Rhwydwaith Arsylwi a Data Morol Ewropeaidd, ei gynnal a'i ariannu ar sail gynaliadwy?
A ddylid datblygu rhwydwaith cynhwysfawr o systemau olrhain llongau'r presennol a'r dyfodol ar gyfer dyfroedd arfordirol yr UE?
Pa ffynonellau data y dylid eu defnyddio, sut y gellid integreiddio'r rhain, ac i bwy y byddai'n darparu gwasanaethau?

### 4.2 Cynllunio Gofodol ar gyfer Economi Forol Ar Dwf

Beth yw'r egwyddorion a'r mecanweithiau a ddylai danategu systemau cynllunio gofodol morol?
Sut y gellir sicrhau bod systemau cynllunio ar y tir ac ar y môr yn gydnaws?

### 4.3 Gwneud y Gorau o Gymorth Ariannol i Ardaloedd Arfordirol

Sut y gall offerynnau ariannol yr UE gyfrannu orau i'r broses o gyflawni nodau'r polisi morol?
A oes angen gwell data ar ardaloedd arfordirol a gweithgareddau morol?
Sut y dylid adlewyrchu polisi morol yn y trafodaethau sy'n gysylltiedig â Fframwaith Ariannol nesaf yr UE?

## 5. Llywodraethu'r Moroedd

### 5.1 Llunio Polisïau o fewn yr UE

Sut y gellir gweithredu ymagwedd integredig tuag at faterion morol yn yr UE? Pa egwyddorion ddylai fod yn sail iddi?
A ddylid cynnal cynhadledd flynyddol ar arfer gorau o ran llywodraethu'r moroedd?

### 5.2 Gweithgareddau Alltraeth Llywodraethau

Sut y gall yr UE helpu i sbarduno cydlyniad, effeithlonrwydd ariannol a chydweithio gwell rhwng gweithgareddau llywodraethau ar ddyfroedd arfordirol yr UE?
A ddylid sefydlu gwasanaeth gwylwyr y glannau yn yr UE? Beth y gellid eu pennu fel nodau a dyletswyddau iddo?
Ar gyfer pa weithgareddau eraill y dylid datblygu "Gofod Morol Ewropeaidd Cyffredin"?

### 5.3 Rheolau Rhyngwladol ar gyfer Gweithgareddau Byd-eang

Beth yw'r ffordd orau i'r UE ddefnyddio'i dylanwad mewn fforymau morol rhyngwladol?
A ddylai'r Gymuned Ewropeaidd ddod yn aelod o sefydliadau morol mwy amlochrog?
Pa gamau y dylai'r EU eu cymryd i gryfhau ymdrechion rhyngwladol i gael gwared â physgodfeydd anghyfreithlon, heb eu rheoleiddio na'u rheoli (IUU)?
Sut y gellir defnyddio polisi allanol yr UE i hyrwyddo cystadleuaeth deg i'r economi morol byd-eang ac i annog gwledydd y trydydd byd i fabwysiadu polisïau ac arferion morol cynaliadwy?

### 5.4 Ystyried Realitioedd Daearyddol

Pa fanylion rhanbarthol sydd angen eu hystyried ym mholisïau morol yr UE?
Sut y dylid integreiddio materion morol ymhellach i mewn i bolisïau cymdogaeth a datblygu'r UE?

## 6. Adennill Treftadaeth Forol Ewrop ac Ailgadarnhau Hunaniaeth Forol Ewrop

Pa gamau y dylai'r UE eu cymryd i gefnogi addysg a threftadaeth forol a meithrin ymdeimlad cryfach o hunaniaeth forol?

# Towards a future Maritime Policy for the Union:
## A European vision for the oceans and seas



**Malcolm Colling**
Maritime Policy Task Force
02 March 2007

http://ec.europa.eu/maritimeaffairs

# The Sea Serves many Purposes

Almost half of the Union's population lives less than 50 km from the sea. More than 60% of EU holiday-makers chose the coast as their holiday destination.



AND...



90% of Europe's external trade and 40% of its internal trade are shipped through seaports. Between 3-5 % of GDP is generated by maritime activties.

# Strategic Objectives for the Commission

**In its strategic objectives for 2005-2009, the Commission declared:**

*”the particular need for an all-embracing maritime policy aimed a developing a thriving maritime economy, in an environmentally sustainable manner. Such a policy should be supported by excellence in marine scientific research, technology and innovation”*

# A Maritime Policy for the EU

## What?

The Green Paper:

- aims to launch a debate about a future Maritime policy for the EU
- treat the oceans in a holistic way.

## How?

- build upon existing EU policies
- strike the right balance between the economic, social and environmental dimensions of sustainable development.

# International Trends

*“the problems of ocean space are closely inter-related and need to be considered as a whole”*


*The Preamble to the United Nations Convention on the Law of the Sea of 1982*

*“Ensuring the sustainable development of the oceans requires effective coordination and cooperation”*

*2002 Johannesburg Plan of Implementation of the World Summit on Sustainable Development*

Several countries, including Australia, Canada, and more recently the USA, have been developing new integrated ocean policies.

# Issues


Competitiveness
RTD
Employment
Skills
Safety
Security
Coordination
Observation
Data collection
Marine
Resources
ICZM
Marine
Environment

# A Steering Group for Maritime Policy











Maritime Policy Commissioners' Steering Group

# Organisation



# Timetable

| | |
|---|---|
| April- November 2005 | pre-consultation |
| December- January 2006 | drafting |
| February-May 2006 | interservices consultation |
| May 2006 | Translations and preparing for adoption by the College of Commissioners |
| 7 June 2006 | Adoption |

# Consultation

| Date | Event |
|---|---|
| 07.06.2006 | Adoption of Green Paper<br>Start of consultation |
| 07.06.2007 | End of Consultation |
| End 2007 | Commission report |

**Input**

Green Paper
Background
Promotion material

**Discussion**

Stakeholder Events
Workshops
Web-based consultation

**Output**

Commission conclusions on the way ahead


# Green Paper - Themes

- A thriving maritime economy
- Life in coastal regions
- The tools to manage relations with the oceans
- Maritime governance
- Maritime heritage



# A thriving Maritime Industry

## The 10 largest European maritime sectors




Source data: Irish Marine Institute

# A thriving Maritime Industry

## Assets

- Healthy oceans: a clean environment and biodiversity
- Exploiting RTD and innovation
- Maritime jobs/working conditions
- Clustering
- A favourable regulatory environment, based on stakeholders' concerns


# Life in Coastal Regions



- The attractiveness of coastal areas
- Adapting to coastal risks
- Developing coastal tourism
- Managing the land-sea interface

# The tools to manage relations with the oceans

- Data at the service of multiple activities



- Spatial Planning

- Financial support to underpin maritime policy objectives



# Maritime Governance: 1



- Taking account of what exists
- Overcoming excessive specialisation
- Bringing about a change in the way we deal with the oceans
- Achieving joined up government
- Listening to stakeholders



## Maritime Governance: 2

- A more holistic approach at EU level?
- Offshore activities of Governments
- The role of the EU in the world
- Working with our neighbours
- Regional aspects



# Maritime Heritage



# A Policy Combining


**The lessons of the past**





**And the promise of the future**

# Our Website: http://ec.europa.eu/maritimeaffairs



# More information? Input?

**Maritime Policy Task Force**

**The European Commission**
**Directorate-General for Fisheries and Maritime Affairs**
**J-99 07/12**
**B-1049 Brussels**
**Belgium**

**ec-maritime-green-paper@ec.europa.eu**

Thank you for your attention



http://ec.europa.eu/maritimeaffairs